# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 4ydd o Fedi 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Goffa Chwilog, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i’r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda’r Clerc).

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.**

   **Yn bresennol** y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Sian Angharad Parry, Aled Davies, Dylan Thomas, Miriam Williams, Rhys Tudur, Dewi Thomas, Aled Evans, Delyth Parry, Gareth Davies, Angharad Llwyd-Jones a’r Clerc.

   **Ymddiheuriadau** – Cynghorydd Euros Jones, Angela Williams, Tegid Jones a Darren Morley.

2. **Cyflwyniad gan Mr Gwyndaf Williams, Rheolwr Datblygu Gorllewin Grwp Cynefin a Ms Rhiannon Dafydd** i son am eu cynlluniau, i adeiladu 25 o dai yng nghae Brynhyfryd a derbyn adborth a sylwadau. Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori cyhoeddus yn Neuadd Goffa Chwilog 04.09.2025 rhwng 3 – 6 yr hwyr. Roedd cyfle i’r cyhoedd roi ei sylwadau ar daflenni. Mae Grŵp Cynefin yn edrych ar ddatblygiad posib o dai fforddiadwy. Bydd y math o dai terfynol i’w gadarnhau, er mwyn ei gosod ar sail rhent cymdeithasol a rhent canolraddol.

Eglurwyd ei bod wedi holi Tai Teg i weld pa fath o dai oedd ei angen yn yr ardal.
Byddant yn cael ei adeiladu i ansawdd ynni effeithiol.
Gwnaethant dderbyn gwybodaeth gan Adran Opsiynau Tai, Cyngor Gwynedd, fod 84 ar restr drwy Wynedd yn aros am gartref yn Chwilog, ond gallai’r pentref fod yn ddewis opsiwn rhwng 1 – 5.
Gall unrhyw un wneud cais a bydd angen cofrestru, bydd blaenoriaeth yn cael ei roi ar gyfer sefyllfa unigolyn, a faint o hir y maent yn aros am gartref.
Y bwriad yw adeiladu 6 fflat 1 lloft mewn uned ‘bloc’.
9 tŷ 2 lofft, 8 tŷ 3 lloft, a 2 fyngalo 2 lofft.
Ni fydd opsiwn i brynu’r tai yma.
Nid ydynt wedi prynu’r cae eto, oherwydd ei bod angen caniatâd cynllunio gyntaf, felly bydd yn cymryd tua 2-3 mlynedd iddynt fod yn barod os bydd y cynllun yn cael ei wireddu.
Pan ddaw’r cais cynllunio ger bron, bydd gan bawb hawl i wneud sylwadau.

3. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 3ydd o Orffennaf 2025.**

4. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Gorffennaf ac Awst 2025.**

5. **Datgan buddiant personol - neb.**

6. **Un Llais Cymru** Cynhadledd Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ar Faes y Sioe Amaethyddol ar ddydd Mercher 1 Hydref 2025. Angen mynegi siom nad oedd modd cael cyswllt rhithiol.

7. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

8. **Adran Priffyrdd – Llys Elphin, Bro Sion Wyn, Chwilog** – atgyweirio draeniau.

9. **Gwynedd Oed Cyfeillgar** – ebost gan Bethan Williams, Rheolwr Cefnogi Iechyd a Llesiant yn Cyngor Gwynedd, cyfrifoldeb am y gwaith Oed Gyfeillgar.

Dweud fod Cyngor Gwynedd yn gweithio i fod yn awdurdod lleol ac yn ardal oed gyfeillgar ac mae hyn yn cyd-fynd a'r gwaith cenedlaethol gan Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae Gwynedd wedi ei chydnabod fel Cymuned Oed Gyfeillgar gan Sefydliad Iechyd y Byd, sydd yn golygu fod y Cyngor, a mwy na 30 o bartneriaid, yn cydweithio i sicrhau fod Gwynedd yn lle dymunol a diogel i bobl wrth iddynt heneiddio.

Holi os oes cyfle i ddod i un o'n cyfarfodydd yn tymor yr Hydref i drafod y maes yma ymhellach a gweld os oes cyfleon i gydweithio a helpu'n gilydd. **Derbyn y cynnig**.

**10. Cais cynllunio sydd angen penderfyniad**

a) **Rhif cais: C25/0429/41/DT Bryn Aber, Llangybi** –-gosod paneli solar Photovoltaic. **Cefnogi.**

b) **Rhif cais: C25/0527/41/DT Bryn Ceiri, Bryn March, Ynys, Cricieth** - codi garej i gymeryd lle garej sydd wedi ei ddymchwel fel rhan o gais cynllunio C23/0052/41/DT. **Dim gwrthwynebiad.**

c) **Ymgynghoriad cyn cynllunio – tir ger Brynhyfryd, Chwilog**, gan Williams Homes (Bala) a Grwp Cynefin. Codi 25 o dai fforddiadwy, creu mynedfa newydd o'r B4354 i gerbydau ynghŷd â gwaith cysylltiedig. **Angen sylwadau erbyn 14.09.2025.**

Yn dilyn derbyn cyflwyniad gan Mr Gwyndaf Williams a Ms Rhiannon Dafydd o Grwp Cynefin i drafod ei bwriad i godi 25 o dai fforddiadwy yn Chwilog, dyma oedd barn a phryderon y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r ymgynghoriad cyn cynllunio uchod, a penderfynwyd fel â ganlyn:

**Diffyg Cyswllt lleol** – dylai fod cyswllt agos â'r pentref neu o fewn cymuned Llanystumdwy fod yn factor dros roi blaenoriaeth i denant newydd.

**Ffactor yr iaith Gymraeg** mae Cyngor Cymuned Llanystumdwy wedi cael ei dynodi yn ardal o arwyddocâd ieithyddol.

**Angen Polisi Ieithyddol** – mae Chwilog yn bentref Cymraeg ac mae angen parchu hynny, fel bod hynny'n cael ei ystyried wrth osod y tai.

**Angen Polisi Gosod Lleol newydd** – er mwyn rhoi ystyriaeth ieithyddol wrth osod y tai. Mae angen hyn ar gyfer y tai yn Y Ffor hefyd, a drwy Wynedd. Mae'n bryder mawr y bydd tenantiaid newydd yn symud i mewn i'r ardal o'r tu allan i'r ardal a thu allan i Wynedd. Mae problemau yn amlygu mewn pentrefi cyfagos, megis Llanystumdwy a Chricieth, ble mae tenantiaid yn achosi problemau a thor cyfraith. Nid yw hyn yn broblem yn Chwilog ar y funud.

**Trosiant tai yn broblem** – mae hyn yn broblem wrth i denantiaid ddewis cyfnewid tenantiaethau ymysg ei gilydd. Mae hyn yn gallu creu problem ieithyddol a phroblemau ymddygiad.

**Prifffordd** – diogelwch 20 milltir yr awr. Mae llawer iawn o gerbydau/loriau/tractorau yn pasio drwy'r pentref. Bydd angen sicrhau fod palmant saff o'r stad newydd i'r pentref. A oes lle i roi un yno yr holl ffordd, heb orfod cymryd darn o erddi tai cyfagos?

**Ysgol yn llawn** – tybed a fyddai cyfraniad yn cael ei wneud i gysidro cynyddu maint yr ysgol? Deallir bod yr ysgol bron yn llawn ar hyn o bryd, felly byddai angen dosbarth newydd o bosib.

**Carthffosiaeth** – bu son fod problem hefo'r lleoliad yma flynyddoedd yn nol, pan oedd bwriad i adeiladu tai yno.

**Cyfleusterau chwarae yn y pentref** – mae prinder lle chwarae saff i blant yn y pentref – tybed a fyddai Grwp Cynefin yn fodlon cyfrannu at uwchraddio'r cae chwarae sydd yn y pentref ar hyn o bryd, ger Maes Myrddin. Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol amdano.

**Dim siop** yn y pentref, dim ond cigydd lleol.

**Mae Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn gwneud cynnig** bod y Cynghorydd Rhys Tudur, a chynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned yn trefnu cyfarfod ar y cyd hefo Grwp Cynefin, a Chyngor Gwynedd i drafod a gofyn am ystyriaeth ieithyddol a gosod hefo stadau tai o'r math yma. Mae'n hynod bwysig fod gwreiddiau lleol yn cael ei ystyried wrth osod tai bob tro mae trosiant tenantiaid. Bydd yr ymateb yma'n cael ei anfon at Ms Sioned Edwards, Rheolwr Gyfarwyddwr Conwy, Cadnant Planning, sydd yn delio hefo'r yngynghoriad.

11. **Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref a Chymuned. Cynllun Gwelliannau i bentrefi cyfagos**

Derbyniwyd ebost gan Alys Jones, Swyddog Prosiect Adfywio Trefi, Cyngor Gwynedd, yn caniatau cyfraniad o **£4,799.00** i Cyngor Cymuned Llanystumdwy, a bydd angen cwblhau y gwaith erbyn **31.12.2025**. Bydd y Cyngor Cymuned yn talu'r Treth ar Werth ar y gwahanol eitemau, ac yn ei hawlio yn ol wedyn.

Y pwrpas oedd i ddatblygu cynlluniau sydd yn gwella y gymuned, drwy edrychiad, cyfleusterau a bwrlwm trefi a phentrefi Gwynedd.

**Derbyniwyd y grant i gefnogi y 3 cynllun isod:-**

- **Arwyddion llechi o enwau pontydd o fewn y gymuned, Pont y Felin, Pont Gaerddu Bach, Pont y Pandy a Phont Ffriwlwyd (Afonwen).**
- **Hysbysfwrdd Beirdd Mynwent Chwilog – Eifion Wyn a Myrddin Fardd.**
- **Cyngerdd ym Mhencaenewydd 'Ar Noson fel Hon' 01.11.2025.**

**Ni dderbyniwyd arian tuag at sefydlu cangen newydd yr Urdd yn Llanystumdwy.**

Bydd angen dangos tystiolaeth o'r gwaith a gwblhawyd – lluniau ac adroddiad.
Cyflwyno'r anfonebau yn amserol a chopi o ddatganiadau BACS i brofi fod y taliad wedi ei wneud.
Bydd angen dangos cydnabyddiaeth i Cyngor Gwynedd a Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn unrhyw gyhoeddusrwydd gan gynnwys sicrhau fod logo ohonynt wedi ei osod ar unrhyw adroddiad, dyluniadau neu gyfarpar sydd wedi ei ariannu drwy'r grant. Mae Cyngor Gwynedd wedi darparu rhain.

**Materion yn y gymuned**.

12. **Llanystumdwy**
a) **Coed ar dir Amgueddfa Lloyd George sydd yn ffinio gyda chefn rhes tai Maenywern.**
Mae pryder am gyflwr y coed mawr sydd hefyd yn cefnu ger y toiledau cyhoeddus.
Maent yn edrych yn hynod fregus, ac mae darn o raff sydd yn edrych fel pebai wedi ei osod gan rywun, i gadw rhai o'r canghennau rhag syrthio.

Derbyniwyd copi o lythyr a oedd hefyd wedi ei anfon at Brif Swyddog Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, Cyngor Gwynedd yn gofyn i Gyngor Gwynedd drefnu i wneud archwiliad o gyflwr y coed oherwydd os byddant yn syrthio bydd difrod sylweddol i'r eiddo cyfagos, cefn tai rhes Maenywern a'r toiledau cyhoeddus, sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. Cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd fyddai talu am atgyweirio unrhyw ddifrod. Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

13. **Tý Canton, Llanystumdwy** – Gwrych yn tyfu'n fawr allan i'r palmant, anodd i gadair olwyn basio heb fynd i'r lon. Y gwaith eisioes wedi ei wneud.

14. **Clawdd lon Maen y Wern** – angen ei dorri nol yn fwy nag y mae wedi cael ei wneud, ac o dan y bont. Y Clerc wedi gofyn wrth y contractor wneud y gwaith, cynnigiwyd bod y Clerc yn cysylltu hefo contractor arall i wneud y gwaith.

15. **Rhoslan/Ynys**
a) **Tario ar y ffordd wledig o Rhoslan i Bont Bryn Beddau**. Mae gwyneb y ffordd mewn cyflwr drwg. Siomedig hefo'r sylw gafwyd hyd yn hyn (clytia bach o dar yma ac acw)

b) **Tario ger Tyddyn Heilyn, Chwilog** – eto ymateb siomedig hefo'r sylw roddwyd i'r tyllau, mae cyflwr drwg iawn ar y ffordd ers cryn amser.

16. **Chwilog**
a) **Lloches bws ger Bro Sion Wyn** gwydr un ochr a'r panel gwyrdd ochr arall wedi cael ei falu. Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd, ac wedi gofyn am 2 bris i'w trwsio. Wedi cael un pris (i'w drafod).
Wedi cysylltu hefo Adran Trafnidiaeth, ac opsiwn arall fyddai os nad oes llawer o ddefnydd yn cael ei wneud ar y lloches, gellir ystyried ei dynnu oddi yno'n gyfangwbl, drwy roi hysbyseb yn y safle bws o'r bwriad i'w dynnu, a gwnaiff y Cyngor roi pris i ni am ei dynnu oddi ar y safle.
**Penderfynwyd ei adael fel ag y mae am rwan, oherwydd fod pris i'w drwsio yn uchel a byddai peryg iddo gael ei falu eto.**

b) **Lloches bws Maes Myrddin** – planhigyn mawr yn tyfu yno. Y Clerc am drefnu i'w dorri a'i glirio oddi ar y safle.

c) **Arafu traffig** – cais yn nodi fod loriau cwmniau lleol a thractorau yn anwybyddu'r terfyn cyflymder 20 milltir yr awr yn arbennig rhwng 6:00 – 7:30 y bore.
Mae hyn yn difetha diogelwch y gymuned.
Tynnwyd sylw fod gyrrwyr loriau Afonwen yn arbennig yn anwybyddu'r cyfyngiad cyflymder yn gynnar yn y bore. Fe enwyd y canlynol hefyd,
Williams and Williams / Cwmni Bwyd Harlech a Gwynedd Skips. **Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at y cwmniau yma yn gofyn wrthyn nhw rybuddio ei gyrrwyr am gadw i'r cyflymder 20 milltir yr awr.**

Yn ogystal, mae nifer o unigolion sy'n gyrru tractorau sy'n tynnu darnau mawr o offer neu drelar, yn rhuthro trwy'r pentref gan groesi'r "bympiau cyflymder" ac yn anwybyddu'r cyfyngiad cyflymder 20 milltir yr awr yn llwyr.
**Gofynwyd i'r Cyngor Cymuned ystyried gofyn am 2 arwydd rhybuddio cyflymder mewn mannau addas, un a'i a fyddai'n bosib prynu rhai i'w gosod yn y pentref neu os gall Cyngor Gwynedd osod rhai hefo gwyneb yn gwenu neu edrych yn gas wrth i gerbydau basio fel ag sydd ym Mhontllyfni. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Heddlu a rhoi y mater yn rhifyn mis Hydref o'r Ffynnon.**

ch) **Arbed difrod Lon Goed**
Ymholiad am ddiweddariad ar wellianau posib i ffosydd y Lon Goed, yn benodol bod gwaith angen ei wneud i'r cwlfer ger Bryn March. Mae perchennog Llecheiddior Ganol wedi bod yn clirio'r rhan sydd yng nghornel y cae, y tu ol i Fryn March, ond nid yw'r cwlfer sy'n rhedeg o dan tir Bryn March yn rhedeg yn dda, a phan ddaw'r glaw trwm yn y gaeaf mae peryg iddi orlifo eto a gwneud mwy o ddifrod i wyneb y Lon Goed yn is i lawr.
Gofynwyd os nad oes modd gwneud gwaith atgyweirio i'r cwlfer ar hyn o bryd, a fyddai modd cysidro gosod 'kerbing' ar draws adwy'r Lon Goed, fel y byddai unrhyw ddwr sy'n gorlifo yn cael ei yrru i'r ffosydd bob ochr i'r Lon Goed er mwyn arbed unrhyw ddifrod pellach. Clerc yn disgwyl ateb gan Cyngor Gwynedd.

17. **Pencaenewydd/Sardis**
**Problem baw cwn** – wedi cysylltu hefo Adran Gorfodaeth, ac maent wedi gosod arwyddion o gwmpas y pentref. Os oes unrhyw un yn gweld rhywun yn peidio codi'r baw, ac yn medru rhoi manylion enw a chyfeiriad y person, a thynnu llun o'r digwyddiad, bydd yn bosib anfon dirwy o £100.00 i'r person.

18. **Llangybi** - dim.

19. **Hysbysfyrddau wedi cael sylw** – mae clo'r hysbysfwrdd ym Mhencaenewydd wedi cael ei drwsio, ac mae Mr Alun Owen eisioes wedi 2 got o staen ar y 4 hysbysfwrdd sydd gennym.

20. **Gwarchod ac adfer cymunedau Cymraeg** – copi o lythyr gan Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith, at Mark Drakeford, yn datgan siom mewn arafwch delio hefo 'r mater. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr hefyd yn cefnogi hyn, ac i ddweud ein bod yn disgwyl yn eiddgar am ymateb.

21. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.08.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

22. **Archwilio allannol** - Y Clerc wedi anfon y manylion at Archwilio Cymru, ar gyfer archwiliad llawn, ac yn disgwyl ymateb.

23. **Treth ar Werth 01.04.2024 – 31.03.2025** y Clerc wedi hawlio £563.16 yn nol ar 29.08.2025

24. **Cyfarfod Cynllun Busnes/Cyllideb** am y flwyddyn ariannol nesaf 2026-2027. Cytunwyd i'w gynnal o flaen y prif gyfarfod nesaf ar 02.10.2025 am 6:30.

25. **Biliau wedi ei derbyn yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2025. Y Clerc wedi anfon copi ohonynt at y Cadeirydd, er mwyn cael caniatâd drwy ebost i'r Clerc ei talu yn ystod mis Awst 2025. Mae manylion pob taliad a wnaed isod.**

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Alun Owen (3010) | Gosod clo newydd ar hysbysfwrdd Pencaenewydd | **52.90** | **10.58** | **63.48** | **63.48** |
| Cyngor Gwynedd | Gwasanaeth Archwilio Mewnol 2024-2025 | **395.00** | **79.00** | **474.00** | **474.00** |
| Criccieth Cleaning | Glanhau llochesi bws (3878) 23.07.2025 | **224.40** | **44.88** | **269.28** | **269.28** |
| Defibstore Ltd | Padiau a bateri ar gyfer Rhoslan | **95.00** | **19.00** | **114.00** | **114.00** |
| Alun Owen (3010) | Peintio 4 hysbysfwrdd hefo 2 haen o staen | **150.00** | **31.10** | **186.60** | **186.60** |
| G.L.Jones | Glanhau matiau du Cae Chwarae Llangybi (jetio) | **360.00** | **72.00** | **432.00** | **432.00** |

26. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| ALCC | Tâl aelodaeth 09.09.25-09.09.26 | **50.00** | | **50.00** | **50.00** |

27. Cyflog mis Awst 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM. Cytunwyd i gynyddu cyflog y Clerc yn nol i 01.04.2025 ar ol derbyn codiad cyflog blynyddol cenedlaethol (NJC) i £18.85 yr awr. Clerc wedi dangos cadarnhad o'r ohebiaeth i'r Cadeirydd.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Awst 2025<br>35 awr y mis x £18.85 = **£659.75** a<br>12 awr ychwanegol i wneud cais Cronfa Gwynedd Ni = 12 x £18.85 = **£226.20**<br>Hefyd ol-daliad codiad cyflog cenedlaethol (NJC) o £18.26 i £18.85 yr awr rhwng 01.04.25-31.07.25 = **£89.68 = £975.63** | 975.63<br><br>Llai treth-£195.13 = **£780.00** | **780.00** | **780.00** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Awst 2025<br>£975.63 x 20% = £195.13 | **£195.13** | **195.13** | **195.13** |
| Costau swyddfa Clerc Awst 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

Cytunwyd mai ar y nos Iau **02.10.2025** fydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Chwilog a drwy Zoom am 7:00, a bydd yn Cyfarfod Cyllid/Busnes yn cael ei gynnal am 6:30.

28. **Cais Cynllunio Safle ger Lleifior, Llangybi** (C24/0691/41/LL) – codi un tý annedd (C3) a mynediad cysylltiedig gyda lle i barcio - **Gwrthod oherwydd fod y dyluniad yn anghydnaws a chymeriad y pentref.**

29. **1 a 4 Tregarn i Pencaenewydd** – derbynwyd cwynion fod trelar, cychod, carafan a threlar sgrap o flaen y tai yn gyson. Y Clerc wedi anfon ebost at gwmni Adra yn ei holi tybed a fyddai'n bosib iddynt wneud rhywbeth ynglyn â'r mater. Derbyniwyd ymateb gan Adra yn dweud oherwydd fod y cerbydau ar lon sydd yn briffordd, dylid cysylltu hefo Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ynglyn â'r mater, a nad oes gan Adra bwerau i ddelio hefo'r mater. **Y Clerc am gysylltu hefo Adran Priffyrdd.**